

Cynllun Gweithredu Rheoleiddio AGIC

Ysbyty: Priory Hospital Cefn Carnau

Dyddiad yr arolygiad: 22ain /23ain 24ain /09/14

Dyddiad y Cynllun Gweithredu: 12/10/14

Cyfarwyddwr yr Ysbyty: Patrick Mhlanga

Graddfa: coch, oren a gwyrdd

Gwyrdd = Wedi'i gwblhau

Oren = Ar waith

Coch = Cam gweithredu dros amserlen i'w gwblhau

Canlyniadau/ Safon	Sylwadau Ychwanegol/ Tystiolaeth	Cam gweithredu	Cynnydd Hyd yn Hyn	Gan bwy	COCH, OREN , GWYRDD	Amserlen ar gyfer Cwblhau	Dyddiad y'i cwblhawyd
Canlyniad/Safon - (nodwch ganlyniad/safon)							
Rheoliad 18 (2) (a) a (b)	Roedd y morâl yn isel ar y cyfan ymhlith staff. Dywedodd y staff eu bod yn teimlo dan bwysau i gyflenwi oherwydd lefelau staffio annigonol, nid oeddent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, roedd rhai'n teimlo'n flinedig tu hwnt, ac nid oeddent yn derbyn llawer o gefnogaeth. Rhaid gwella'r morâl ymhlith staff	1 - Rhaid i'r holl staff gael goruchwyliaeth fisol ar y safle a chael eu hannog i'w chwblhau. Dylid creu a gweithredu matrices goruchwyllo ar y safle er mwyn rhoi strwythur i oruchwylion a drefnwyd.	Cynyddwyd y cydymffurfiaid â'r Sylfeini ar gyfer Twf ers arolygiad AGIC. Darparwyd goruchwyliaeth grŵp a goruchwyliaeth glinigol unigol ledled y safle, gyda'r bwriad o sicrhau bod 100% o staff llawn amser a staff banc yn cael eu goruchwyllo.	Rheolwr y ward		30/11/14	
		2 - Dylid darparu mwy o gyfleoedd hyfforddi ac opsiynau datblygiad personol i staff llawn amser.	Mae nifer o nyrsys a staff cynorthwyol wedi mynegi diddordeb mewn cwblhau gwaith NVQ. Mae staff yn derbyn cymorth ar hyn o bryd gyda'r broses o gyflwyno cais. Mae nifer o staff llawn amser wedi cael eu henwebu i dderbyn hyfforddiant a gyflenwir ar y safle. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant ar Reoli Trais ac Ymddygiad Ymosodol a hyfforddiant ar Gefnogaeth Ymddygiad Cadarnhaol.	Rheolwr y ward/ Rheolwr Gwasanaethau Clinigol /Pennaeth Adran		30/11/14	

		3 - Cynllun interim gydag opsiynau i archwilio cymhelliannau i staff amser llawn i gyflawni gwaith sy'n ychwanegol i'w sifft a gynlluniwyd, yn ogystal â chynnydd yn eu cyflog.	Mae aelodau staff amser llawn wedi gweithio nifer o sifftiau ychwanegol. Mae hyn wedi darparu parhad mewn gofal ac wedi arwain at lai o staff asiantaeth yn cael eu defnyddio yn yr ysbyty. Gwnaeth staff ddarparu adborth cadarnhaol ar gyfer y cynllun interim hwn.	Cyfarwyddwr Gweithredol / Pennaeth Adran		Cwblhawyd.	09/10/14
		4 - Y staff uwch i gerdded o amgylch yn ddyddiol er mwyn darparu cefnogaeth a gwybodaeth gyfredol ar y cynnydd ar y safle. Mae hyn wedi caniatáu cyfle i staff drafod unrhyw bryderon y gallai fod ganddynt yn gynt na'r arfer.	Mae nifer o staff wedi manteisio ar y cyfle hwn i drafod a datrys materion yn gynt. Mae hyn yn parhau i gael ei ddatrys yn ddyddiol, ac mae camau gweithredu sydd eu hangen yn cael eu gweithredu arnynt gan aelodau staff uwch.	Rheolwr y ward/ Rheolwr Gwasanaetha u Clinigol/Penn aeth Adran		Cwblhawyd .	15/10/14
		5 - Dylid cadw at y lefelau cywir o ran nifer y staff ar y safle, a defnyddio nifer priodol o aelodau staff wrth asiantaethau / staff banc.	Mae cydlynnydd banc yn goruchwyllo pob rota ar y safle, gan sicrhau bod lefelau staff y cytunwyd arnynt yn cael eu cynnal, ynghyd â defnyddio adnoddau yn gywir.	Banc Cydlynnydd		Cwblhawyd .	08/10/14
		6 - Nyrsys ychwanegol yn cael eu cyflwyno ar y safle rhwng 9-5 yn ystod yr interim i roi cefnogaeth i'r nyrsys gyda'r gwaith gweinyddol ar bob ward.	Mae nifer o dasgau sydd angen eu cwblhau ynghyd â gwaith gweinyddol, yn parhau i fynd yn eu blaen ac yn cael eu cwblhau'n llawn. Mae hyn wedi lleihau'r baich gwaith i'r nyrsys ar y safle.	Rheolwr y ward / Rheolwr Gwasanaetha u Clinigol / Pennaeth Adran		Cwblhawyd .	17/10/2014
Canlyniad/Safon - (nodwch ganlyniad/safon)							

Rheoliad 11 (1) (a) (b) (i) a (iii)	Mae angen rheolwr llawn amser ar yr ysbyty er mwyn rheoli'r gwasanaeth yn effeithiol. Yn ystod ein hymweliad, y drefn oedd bod un rheolwr yn rheoli dau ysbyty, mae hyn yn anfoddhaol ac yn anghynnaladwy. Golyga'r sefyllfa hon fod gwaith yn cael ei orlwytho ar y staff, ac roedd staff yn teimlo bod y tasgau ychwanegol bob dydd yn anodd ar wardiau sydd eisoes yn orlawn ac yn heriol. Rhaid penodi rheolwr ysbyty llawn amser.	Cafodd Patrick Mhlanga ei benodi fel Cyfarwyddwr yr Ysbyty yn yr interim. Mae hyn yn golygu bod aelod o staff cyflenwi yn y swydd nes bod y Pennaeth Adran newydd yn dechrau ac yn cwblhau trosglwyddiad llawn/ cwrs cynefino cyn cael cyfrifoldeb llawn am yr ysbyty.	Patrick Mhlanga yw Pennaeth yr Adran dros dro, gyda'r aelodau staff uwch yn gweithredu i atal cynnydd mewn pwysau gwaith, gan sicrhau datblygiad personol parhaus i staff ar y safle. Disgwylir i Gyfarwyddwr Newydd yr Ysbyty ddechrau ar ddydd Llun 20 Hydref 2014.	Cyfarwyddwr Gweithredol / Pennaeth Adran		Cwblhawyd .	20/10/14
Canlyniad/Safon - (nodwch ganlyniad/safon)							
Rheoliad 15 (1) (a) (b) a (c)	Archwiliwyd dwy set o ddogfennau gofal a gwnaed yr arsylwadau canlynol: a. O ran claf A ar ward Sylfaen, canfuom:						

	i. Nid oedd y cynllun rheoli risg yn adlewyrchu'r sefyllfa gyfredol. Roedd yn trafod cyhuddiadau yn erbyn staff gwrywaidd, fodd bynnag roedd hyn hefyd yn berthnasol i staff benywaidd.	Diweddarwyd a chwblhawyd y cynllun rheoli risg i adlewyrchu'r wybodaeth gywir gan nyrs cymwys ar y ward.	Cwblhawyd yn llawn.	Staff Nyrsio.		Cwblhawyd .	30/09/14
	ii. Roedd y cynllun rheoli risg yn nodi strategaeth cymhareb arsylwadau 2:1 o ran cydbwysedd rhywedd, ond ni lynwyd at hyn. Yn ystod ein harchwiliad roedd dau aelod staff gwrywaidd yn arsylwi ar glaf benywaidd.	Newidiwyd cydbwysedd rhywedd yn y cynllun rheoli risg ac ymagwedd er mwyn darparu lefelau diogel o arsylwadau wedi'u hehangu i'r claf.	Cwblhawyd yn llawn.			Cwblhawyd .	30/09/14
	iii. Roedd cryn dipyn o ailadrodd ar nifer fawr o'r cynlluniau gofal.	Mae'r holl nyrsys wedi derbyn cyfarwyddiadau i wneud cynlluniau gofal nyrsio'n fwy syml, gan ddileu manylion sydd wedi'u dyblygu, ac i roi'r cynlluniau gofal angenrheidiol ar waith. Mae hyn yn ychwanegol at gynlluniau gofal craidd y Tîm amlddisgyblaethol sydd eisoes ar waith.	Cyn i'r timau nyrsio ailstrwythuro ar draws y safle, rhoddwyd canllawiau i'r holl nyrsys i gwblhau'r dasg hon. Hyd yn hyn, mae tystiolaeth glir i ddangos y gwnaed ymdrech i gydgrynhoi'r cynlluniau gofal. Yn dilyn y broses ailstrwythuro, cafwyd tystiolaeth ddigonol fod nyrsys yn cefnogi ei gilydd er mwyn ymgyswrtu â chleifion sylfaenol newydd sydd wedi cael eu pennu ynghyd â'u cynlluniau gofal, i leihau'r	Rheolwyr y Ward. Nyrsys Staff		30/11/2014	

			tebygrwydd o ddyblygu cynlluniau gwaith. Mae rheolwyr y ward yn cefnogi ac yn monitro'r cynnydd hwn i sicrhau bod y dyddiad cau yn cael ei fodloni. Mae cymorth hefyd yn cael ei ddarparu drwy hyfforddiant gan Arweinydd Gwella Ansawdd.				
	iv. Roedd y cynllun gofal ar ddiogelu (a adolygwyd ar 03/09/2014) yn nodi "Caiff A ofal nyrsio ar sail arsylwadau cyffredinol." Yn amlwg nid oedd hwn yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol fod y claf yn derbyn gofal gan 2 aelod o staff.	Diddymwyd y cynllun gofal.	Diddymwyd y cynllun gofal am fod y wybodaeth hon yn cael ei hadlewyrchu yn y cynllun asesu risg.	Nyrs Staff.		Cwblhawyd .	15/10/14
	b. Claf B ar ward Derwen:						
	i. Mae angen i'r cynlluniau gofal gael eu had-drefnu er mwyn osgoi dyblygu a chreu gormodedd o gynlluniau.	Mae'r holl nyrsys wedi derbyn cyfarwyddyd i nodi unrhyw enghreifftiau o ymyrraeth ac i sicrhau bod unrhyw fath o ymyrraeth yn cael ei adolygu. Mae'r holl nyrsys wedi derbyn cyfarwyddiadau i wneud cynlluniau gofal nyrsio'n fwy syml, gan ddileu manylion sydd wedi'u dyblygu, ac i roi'r cynlluniau gofal angenrheidiol ar waith. Mae hyn yn ychwanegol at gynlluniau gofal craidd y Tîm amlddisgyblaethol sydd eisoes ar	Mae nyrsys wedi cael cyfarwyddyd i sicrhau bod ymyriadau priodol yn cael eu nodi a'u bod yn mynd i'r afael ag ymyriadau priodol er mwyn sicrhau dull mwy trwyadl wrth adolygu cynlluniau gofal. Cyn i'r timau nyrsio ailstrwythuro ar draws y safle, rhoddwyd canllawiau i'r holl nyrsys i gwblhau'r dasg hon. Mae tystiolaeth glir i nodi y gwnaed pob ymdrech i gydgrynhoi cynlluniau gofal hyd yn hyn. Yn	Rheolwr y Ward. Nyrsys.		30/11/2014	

		waith.	dilyn y broses ailstrwythuro, cafwyd tystiolaeth ddigonol fod nyrsys yn cefnogi ei gilydd er mwyn ymgysgu â chleifion sylfaenol newydd sydd wedi cael eu pennu ynghyd â'u cynlluniau gofal, i leihau'r tebygrwydd o ddyblygu cynlluniau gwaith. Mae rheolwyr y ward yn cefnogi ac yn monitro'r cynnydd hwn i sicrhau bod y dyddiad cau yn cael ei fodloni.				
Canlyniad/Safon - (nodwch ganlyniad/safon)							
Rheoliad 20 (1) (a)	Roedd rheolwr ward Sylfaen yn gweithio nifer sylweddol o sifftiau nos. Mae angen i'r rheolwr fod yn gweithio yn ystod y dydd yn bennaf er mwyn arwain a rheoli'r ward yn effeithiol.	Gwnaeth cyfarwyddwr yr ysbyty a'r cyfarwyddwr gweithredol drafod a chadarnhau y byddai rheolwr y ward ar Sylfaen yn gweithio yn ystod y dydd yn bennaf yn hytrach na gyda'r hwyr, er mwyn sicrhau ei fod yn rheoli'r ward yn effeithiol.	Nid yw rheolwr y ward yn gweithio yn ystod y nos ar hyn o bryd.	Cyfarwyddwr gweithredol / Pennaeth Adran		Cwblhawyd .	30/09/14
Canlyniad/Safon - (nodwch ganlyniad/safon)							
Rheoliad 26 (2) (a) a (c)	Gwnaethom archwilio'r amgylchedd a gwnaed yr arsylwadau canlynol: a. Ar ward Sylfaen:						

	i. Nid oedd gan claf C lle digonol i storio ei heitemau yn ei hystafell wely ac roedd nifer sylweddol o ddillad wedi'u storio ar y llawr.	I osod y celfi storio a gymeradwywyd, cafodd hyn ei gytuno a'i archebu cyn dyddiad yr arolygiad.	Archebwyd celfi storio ychwanegol a gymeradwywyd ar gyfer holl ystafelloedd y cleifion yn yr ysbyty a disgwylir iddynt gyrraedd erbyn 16/10/14.	Ystadau a Chyfleusterau.		Cwblhawyd .	16/10/14
	ii. Nid oedd dull o gau'r paneli tryloyw ar ddrysau ystafelloedd gwely'r cleifion pan fyddent yn dymuno cael preifatrwydd yn eu hystafelloedd gwely.	Y dull gorau o weithredu i'w drafod ymhlith y cyfarwyddwr gweithredol, cyfarwyddwr yr ysbyty a chyfleusterau: P'un a oedd angen archebu paneli newydd, neu os gellir addasu'r paneli sydd eisoes yn bodoli.	Mae angen cysylltu â Gweithgareddau a Chyfleusterau i drefnu arolygiad o'r paneli presennol er mwyn asesu'r dull gorau o weithredu.	Cyfarwyddwr Gweithredol. Pennaeth Adran. Ystadau a Chyfleusterau.		30/11/14	
	iii. Roedd y bin yn orlawn yn yr ystafell ymolchi ar y llawr cyntaf ac roedd angen ei lanhau'n drwyadl.	Yn ystod yr interim, dylid rhoi ffurflenni sy'n mesur nifer yr oriau yn holl ardaloedd yr ystafelloedd gwely a rhaid iddynt gael eu gwirio gan aelodau staff i sicrhau bod yr ardal hon yn cael ei chadw'n lân.	Mae'r ffurflenni monitro wedi'u cyflwyno i ward Bryntirion mewn dull effeithiol. I'w cyflwyno i'r ddwy ward sydd ar ôl, a nyrsys yn cael cyfarwyddyd i glustnodi aelodau staff i ddefnyddio'r ffurflenni hyn yn ystod eu sifftiau. Dylid cwblhau gwiriadau rheolaidd i sicrhau cydymffurfedd llawn yn yr interim.	Rheolwr y ward. Nyrsys. Adran gwaith cynnal a chadw.		Cwblhawyd .	17/10/14
		Hysbyswyd yr adran gwaith cynnal a chadw, ac erbyn hyn maen nhw wedi archebu biniau newydd priodol i bob ystafell ymolchi ledled y tair ward.	Dewiswyd cyflenwyr newydd i ddarparu'r biniau priodol sydd angen yn yr ystafelloedd ymolchi. Mae rhain wedi cael eu harchebu.	Adran gwaith cynnal a chadw.		30/11/14	

	Rhaid mynd i'r afael â'r gofynion amgylcheddol.	Cynhelir gwaith cynnal a chadw i sicrhau bod y gofynion amgylcheddol yn cael eu bodloni.	Mae'r gwaith cynnal a chadw a ddechreuodd cyn yr arolygiad yn dal i fod ar y gweill. Mae staff a'r cleifion yn parhau i gael eu diweddarau ynglŷn â'r cynnydd, ac mae gwaith sylweddol yn digwydd ar y ward ac oddi arno er mwyn sicrhau diogelwch i bawb.	Ystadau a Chyfleusterau. Cyfarwyddwr Gweithredol. Pennaeth Adran		31/03/15	
Canlyniad/Safon - (nodwch ganlyniad/safon)							
Rheoliad 20 (1) (a) a (b)	Rhaid i'r holl staff asiantaeth gael hyfforddiant cynefino gyda dogfennaeth ategol. Cafwyd sampl ar hap 3 gweithiwr o'r asiantaeth ond dim ond un o'r rhain a oedd yn cynnwys cofnod ar ffeil.	Bydd ffeil ganolog yn cael ei chadw yn y dderbynfa ynghyd â ffurflenni ar gyfer yr holl staff. Bydd copïau gwag o'r llyfryn cynefino cyffredinol ar gael yn y ffeil hon, er mwyn i'r staff sy'n gweithio yn y dderbynfa ei roi i staff newydd yr asiantaethau, a'u cwblhau ar y ward. Bydd y rhain yn cael eu cwblhau a'u rhoi yn ôl yn y ffeiliau ar ddiwedd y sifft. Bydd nyrsys yn cael eu hysbysu o'r broses newydd er mwyn sicrhau cydymffurfedd lawn.	Rhoddwyd llyfrynau ymsefydlu perthnasol a ffeil i'w cadw yn y Dderbynfa.	Rheolwr Gwasanaethau Clinigol. Cydlynnydd banc.		30/11/14	
Canlyniad/Safon - (nodwch ganlyniad/safon)							
Rheoliad 20 (1) (b) a 21 (2) (b) a (d)	Nid oedd gwybodaeth ar gael i gadarnhau bod gan staff yr asiantaeth y sgiliau angenrheidiol a'r profiad i weithio yn yr ysbyty. Rhaid i'r ysbyty sicrhau bod asiantaethau yn darparu'r wybodaeth gywir ynglŷn â'r gweithiwr asiant er mwyn sicrhau fod gan y person	Mae cydlynnydd y banc wedi cysylltu â'r asiantaethau cymeradwy er mwyn canfod gwybodaeth berthnasol sy'n ymwneud ag aelodau'r asiantaeth.	Rhaid i'r asiantaethau a gymeradwywyd ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol am staff yr asiantaeth i'r Cydlynnydd Banc, er mwyn sicrhau cymhwysedd, hyfforddiant a sgiliau priodol i weithio yn yr ysbyty.	Cydlynnydd Banc. Cyfarwyddwr Gweithredol.		30/11/14	

	y sgiliau priodol a'r profiad ar gyfer y grŵp cleifion hwnnw.						
Canlyniad/Safon - (nodwch ganlyniad/safon)							
Rheoliad 15 (1) (a) (b) a (c)	Nid oedd unrhyw gynlluniau Cefnogaeth Ymddygiad Cadarnhaol ar waith. Dywedwyd wrthym mai diffyg hyfforddiant oedd y rheswm dros hyn. Tynnwyd sylw at y pwynt hwn ym mis Ebrill (pwynt 4). Rhaid i bob claf gael Cefnogaeth Ymddygiad Cadarnhaol ar waith.	Gwnaed trefniadau er mwyn i'r nyrsys gwblhau cynllun hyfforddiant Cefnogaeth Ymddygiad Cadarnhaol ar y safle, er mwyn eu galluogi i greu cynlluniau Cefnogaeth Ymddygiad Cadarnhaol dilys ac effeithiol i'w cleifion sylfaenol.	Rhaid cadarnhau'r dyddiad hyfforddiant a'i barhau ers 31/10/14.	Arweinydd gwella ansawdd / Cyfarwyddwr yr Ysbyty.		31/01/15	
Canlyniad/Safon - (nodwch ganlyniad/safon)							
Rheoliad 21 (2) (a) (b) (c) a (d)	Archwiliwyd deg (10) o ffeiliau staff a gwnaed yr arsylwadau canlynol:						

Rheoliad 20 (2) (a)	Roedd diffyg tystiolaeth o gynnal a chofnodi goruchwyliaeth reolaidd. Dim ond un allan o ddeg ffeil a gafodd eu harchwilio a oedd yn cynnwys cofnod o oruchwyliaeth a gwblhawyd yn 2014. Rhaid i dystiolaeth o oruchwyliaeth reolaidd fod ar gael.	Cwblhawyd matrices goruchwyllo ar gyfer safle'r ysbyty cyfan, er mwyn cofnodi cyfrifoldebau a hierarchaeth yn glir. Nodwyd bod goruchwyliaeth glinigol yn broblem oherwydd nad oedd staff yn gallu cofnodi'r oruchwyliaeth yn effeithiol ar y system fewnol. Rhaid i'r rheolwr ward sydd wedi'u glustnodi gofnodi'r holl oruchwyliaeth glinigol yn bersonol i sicrhau eu bod yn cael eu cofnodi'n effeithiol ar y system. Gwnaed ymdrech fawr i'r holl oruchwyliaeth glinigol gael ei chynnal y mis hwn, gwnaed ymdrech dda hyd yn hyn. Hysbyswyd nyrsys y bydd goruchwyliaeth glinigol yn cael ei chynnal yn fisol, a gellir ei chwblhau ar sail unigol neu ar ffurf grŵp.	Cynhaliwyd cryn dipyn o oruchwyliaeth effeithiol erbyn hyn, wedi ei chofnodi ar y Sylfeini ar gyfer Twf, a gwelwyd gwelliant mewn cydymffurfedd â hyfforddiant Y Sylfeini ar gyfer Twf.	Rheolwr y ward.		31/12/14	
Canlyniad/Safon - (nodwch ganlyniad/safon)							
Rheoliad 20 (2) (a)	Roedd diffyg tystiolaeth o ddogfennaeth arfarniadau yn y ffeiliau. Er bod system e-ddysgu Y Sylfeini ar gyfer Twf yn nodi cydymffurfedd o 96.7%, ni welwyd unrhyw ddogfennau yn y ffeiliau personél a arolygwyd. Rhaid sicrhau bod tystiolaeth o arfarniadau ar gael.	Dylid ceisio dod o hyd i'r dogfennau arfarnu a gwblhawyd. Os na fydd hyn yn llwyddiannus, bydd angen cwblhau adolygiadau arfarnu er mwyn cofnodi pynciau a drafodwyd yn ystod yr arfarniad cychwynnol, er mwyn i bynciau gael eu cofnodi'n gywir. Bydd arfarnwyr yn cael eu hysbysu y bydd dogfennau arfarnu o hyn ymlaen yn cael eu cofnodi a'u chadw'n ddiogel ar y safle, i sicrhau dilyniant o waith papur cyflawn. Bydd copïau o bob arfarniad yn cael eu storio yn y ffeil Adnoddau Dynol ar gyfer pob unigolyn.	Dylid archwilio ffeiliau personél gyda chymorth wrth yr adran Adnoddau Dynol.	Cyfarwyddwr yr Ysbyty.		31/12/14	

Canlyniad/Safon - (nodwch ganlyniad/safon)							
Rheoliad 15 (5) (a)	Roedd swyddfa'r nyrsys ar ward Sylfaen hefyd yn cael ei defnyddio fel ystafell driniaeth a chlinig. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn aml yn torri ar draws gwaith y Nyrsys Cofrestredig wrth iddyn nhw weinyddu meddyginiaeth. Mae angen clinig wedi'i benodi/ar wahân ar y ward lle gellir gweinyddu meddyginiaeth.	Cynhaliwyd y gwaith cynnal a chadw i greu ystafelloedd ar wahân ar gyfer ystafell driniaeth a swyddfa nyrsys. Mae angen gwneud mwy o waith i sicrhau bod amgylchedd gwaith diogel yn cael ei greu ar gyfer y clinig a'r swyddfa. Dylid trosglwyddo'r dogfennau sy'n nodi'r camau gweithredu sy'n dal ar waith at swyddfa'r nyrsys er mwyn iddynt gwblhau'r newidiadau.	Llwyddwyd i gwblhau gwaith cynnal a chadw er mwyn creu ystafelloedd ar wahân ar gyfer yr ystafell driniaeth a swyddfa'r nyrsys. Crëwyd gofod i weithio a sicrhawyd bod yr offer yn cael ei adleoli yn ddiogel.	Gweithgaredau a Chyfleusterau		31/11/14	
Canlyniad/Safon - (nodwch ganlyniad/safon)							
Rheoliad 15 (9) (a) a (b)	Roedd bwyd yn parhau i fod yn broblem i gleifion a staff (Nodwyd yn Ebrill, pwynt 5). Dywedodd cleifion a staff wrthym fod cyfran y prydau bwyd yn fach a'u bod o safon isel. Mae pryd bwyd olaf yr ysbyty yn cael ei weini am	Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda staff y gegin i sicrhau bod maint y cyfrannau yn addas ac yn gyson ledled y safle. Bellach mae staff yn cael cynnig dau bryd bwyd am ddim bob dydd i sicrhau profiad bwyd cadarnhaol a chynhwysol. Darperir brechdanau yn ystod amser swper i leihau'r angen i gleifion fwyta byrbrydau gyda'r hwyr. Mae'r llyfr sylwadau bwyd yn cael ei gadw ar y tair ward ac mae	Mae nifer o'r cynlluniau gweithredu wedi'u cwblhau. Mae'r gwaith cynnal a chadw sy'n cael ei wneud yn y gegin wedi achosi rhywfaint o oedi, ac mae hyn yn barhaus.	Ystadau a Chyfleusterau. Adran y Gegin. Pennaeth Adran .		30/11/14	

	16:00 bob dydd, sy'n golygu bod llawer o'r cleifion yn llwglyd ac yn bwyta byrbrydau gyda'r hwyr. Dywedodd y chef wrthym ei fod wedi dechrau treialu prydau ar sail themâu a bwydlenni arbrofol. Fodd bynnag, nid oedd y syniadau hyn wedi datrys y problemau ac felly mae angen adolygu'r ddarpariaeth o fwyd.	cleifion/staff yn cael eu hannog i nodi sylwadau at ddibenion y gegin. Bellach, mae prydau bwyd yn cael eu gweini ar y ward, yn hytrach na chael eu rhoi ar blatiau cyn cyrraedd y ward, er mwyn sicrhau cyfran briodol o brydau bwyd ac i gadw'r bwyd yn ffres. Dylid rhoi arweiniad i staff ar sut i wneud hyn yn effeithiol ledled y wardiau. Caiff cleifion eu hannog i roi adborth rheolaidd ar y bwyd, gall hyn fod wrth i faterion godi neu yn ystod egwyl pan ei fod yn gyfleus i'r cleifion. Bydd yr adborth hwn yn cael ei roi yn uniongyrchol i'r gegin drwy staff yr uned a thrwy gyfarfodydd llywodraethu clinigol yn fisol.				
Canlyniad/Safon - (nodwch ganlyniad/safon)						
Rheoliad 15 (1) (b) a (2)	Gwnaeth nifer o staff gwyno nad oedd larymau personol yn gweithio. Mae angen cynnal archwiliad ar frys i sicrhau nad yw diogelwch staff a chleifion yn cael ei roi mewn perygl.	Darparwyd larymau digonol ac maent ar gael ar y safle. Caiff larymau eu gwirio yn ddyddiol ar y dderbynfa ac yn wythnosol ar y ward gan ddefnyddio'r rhestr wirio diogelwch. Yn ystod yr arolygiad, roedd nam ar y system larwm, ac roedd hyn yn cael ei ddatrys gan y cwmni priodol.	Mae'r system larwm bellach yn gweithio.	Ystadau a Chyfleusterau. Cyfarwyddwr yr Ysbyty.	Cwblhawyd .	15/10/14

Canlyniad/Safon - (nodwch ganlyniad/safon)							
Rheoliad 20 (1) (a) a (2) (a) (b)	Dangosodd ystadegau a ddarparwyd fod hyfforddiant 29.2% o staff o ran torri'n rhydd wedi dod i ben neu heb ei gyflawni o gwbl. Nodwyd bod hyfforddiant ar Reoli Trais ac Ymddygiad Ymosodol 27.9% o staff wedi dod i ben neu heb ei gyflawni o gwbl. Roedd y ffigurau hyn yn waeth na'r rhai a nodwyd yn ein hymweliad blaenorol yn ystod mis Ebrill a rhaid mynd i'r afael â nhw ar unwaith.	Rhaid i'r staff sydd heb gael hyfforddiant ar Reoli Trais ac Ymddygiad Ymosodol gael eu cofrestru ar y cwrs cyntaf posibl sydd ar gael gyda hyfforddwr Rheoli Trais ac Ymddygiad Ymosodol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn â hyfforddiant gorfodol. Gwelwyd bod prinder o hyfforddeion Rheoli Trais ac Ymddygiad Ymosodol ac mae staff llawn amser y safle wedi cael eu hannog i enwebu eu hunain ar gyfer y rôl. Bydd rhestr fer yn cael ei llunio yn unol â pholisïau'r Priordy oherwydd natur gyfrifol y swydd. Bydd hyn yn caniatáu mwy o hyfforddiant Rheoli Trais ac Ymddygiad Ymosodol i gael ei gynnal ar y safle ac i fwy o gyrsiau cydymffurfedd a chysiau diweddarau i gael eu cwblhau yn amserol.	Ar hyn o bryd, nid oes hyfforddwr Rheoli Trais ac Ymddygiad Ymosodol ar gael ar y safle (mae un ar ei wyliau ac mae'r llall ar gyfnod tadolaeth). Ar hyn o bryd, nid oes hyfforddwr Rheoli Trais ac Ymddygiad Ymosodol ar gael o'r ysbytai priordy lleol yn yr ardal. Rhaid i Gyfarwyddwr yr ysbyty ddewis hyfforddwr Rheoli Trais ac Ymddygiad Ymosodol cyn gynted â phosibl i sicrhau cydymffurfedd llawn â hyfforddiant mewn Rheoli Trais ac Ymddygiad Ymosodol. Yn yr interim, bydd cais yn cael ei wneud i gael cymorth gan Priory Thornford Park.	Pennaeth Adran Hyfforddeion Rheoli Trais ac Ymddygiad Ymosodol.		31/12/14	
Canlyniad/Safon - (nodwch ganlyniad/safon)							
Rheoliad 15(1)(a)(b) a 19 (1) (a) a (b)	Roedd nifer o benderfyniadau'n ymddangos yn fympwyol ac roedd ymagwedd gyffredinol o ran y ffaith nad oedd allweddï eu hystafelloedd gwely eu hunain gan y cleifion. Ar ward Sylfaen Mae cryno ddisgiau a	Casglwyd ynghyd holl allweddï'r ystafelloedd gwely a'u rhoi i'r wardiau. Mae angen trafod hyn â'r cleifion, ac mae angen cwblhau'r dogfennau perthnasol er mwyn sicrhau bod ganddynt fynediad at allwedd drws ystafell eu hunain. Mae angen adolygu'r ymagwedd gyffredinol ar benderfyniadau'r cleifion i sicrhau eu bod yn mynd i'r afael ag ymagwedd sy'n fwy seiliedig ar y person. Wrth wneud hyn, er	Casglwyd ynghyd yr holl allweddï. I'w drafod mewn proses lywodraethu clinigol, yn ogystal ag ymagwedd sy'n canolbwyntio'n fwy ar yr unigolyn o ran penderfyniadau'r cleifion a'r asesiad risg unigol.	Pennaeth Adran. Rheolwyr y ward. Rheolwr Gwasanaethau Clinigol.		31/12/14	

	DVDs wedi'u cyfyngu i 20 ym mhob ystafell. Mae angen adolygu'r fath penderfyniadau cyffredinol.	mwyn sicrhau ei fod yn unol â pholisïau a gweithdrefnau, gellir gwneud cytundebau ar sail contract rhwng yr ysbyty a'r cleifion o ran iechyd a diogelwch.					
--	---	---	--	--	--	--	--